Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Blaenau

**Blaenau**
**Rhydaman**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3BQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Blaenau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Blaenau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 38 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 34 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 1 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 23.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 23.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 26/02/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/01/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn ar gyfer ei disgyblion sy'n cynnwys tîm o staff sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae hyn yn creu awyrgylch dysgu cynhyrchiol sydd yn ei dro yn meithrin agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu. Gyda hyn, a'r addysgu a'r profiadau dysgu gwerthfawr a ddarperir gan athrawon, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm a gweithgareddau sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella eu medrau yn gyffredinol, er enghraifft eu medrau llythrennedd a digidol. Drwy adnabyddiaeth drylwyr arweinwyr ynglŷn â meysydd yr ysgol i'w gwella, maent yn ymwybodol o'r angen i gryfhau medrau llafar disgyblion ymhellach a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt gymhwyso'u medrau rhifedd. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn addas. Er bod cynlluniau yn eu lle i wella'r meysydd gwella hyn, nid ydynt wedi cael effaith lawn hyd yn hyn.

Mae gwaith y pennaeth dros dro ers cychwyn yn ei rôl yn ddiweddar wedi cynnig sefydlogrwydd i arweinyddiaeth yr ysgol yn dilyn cyfnodau heriol dros nifer o flynyddoedd. Caiff ei chefnogi'n dda gan lywodraethwyr a staff gweithgar sydd ag adnabyddiaeth gadarn o gryfderau a meysydd yr ysgol i'w gwella. Ers ymgymryd â'r rôl tua blwyddyn yn ôl, mae'r pennaeth mewn gofal wedi gosod nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion pob disgybl. O ganlyniad, mae cynnydd, safonau a lles disgyblion, ynghyd ag ansawdd yr addysgu, yn dechrau gwella'n raddol dros y cyfnod.

Er y cryfderau yn yr arweinyddiaeth, mae diffyg sylweddol yng nghyllideb ariannol yr ysgol dros nifer o flynyddoedd. Nid yw'r llywodraethwyr wedi mynd i'r afael â'r diffygion hyn yn ddigon effeithiol.

## Argymhellion

A1 Cytuno a gweithredu ar gynllun adfer i ymateb yn fwriadus i'r diffyg yng nghyllideb ariannol yr ysgol

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau medrau llafaredd disgyblion

A4 Gwella'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau cyfathrebu, rhif, a phersonol a chymdeithasol gweddol isel. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer ohonynt, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau o gymharu â’u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu’n briodol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn gwrando’n astud ar gyflwyniadau staff. Mae eu medrau llafar yn datblygu’n raddol o’u mannau cychwyn, gyda’r mwyafrif yn dod yn siaradwyr hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn cydweithio a datrys problemau gyda’i gilydd, er enghraifft wrth i’r disgyblion ieuengaf adeiladu roced yn yr awyr agored. Er hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn swil wrth ehangu ar eu sgyrsiau gyda’u cyfoedion neu wrth ymateb mewn trafodaeth ag oedolion. Yn ogystal, mae lleiafrif y disgyblion yn troi i’r Saesneg mewn gweithgareddau dosbarth neu yn ystod cyfnodau egwyl yn aml, yn hytrach na pharhau i drafod a sgwrsio yn Gymraeg.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod llythrennau a geiriau cyfarwydd a’u hynganu’n gywir wrth ddarllen testunau sy’n unol â’u cam datblygu. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn dangos mwynhad wrth ddarllen llyfrau ffuglen, gyda rhai ohonynt yn trafod eu hoff awduron yn dda. Mae llawer yn adnabod rhinweddau amlwg yn eu llyfrau darllen, fel pan mae’r cymeriadau yn siarad, gydag ychydig o’r darllenwyr mwy hyderus yn addasu goslef eu llais er mwyn dynwared cymeriadau’n effeithiol. Mae medrau ymchwilio’r disgyblion wrth ddarllen gwybodaeth mewn testunau ffeithiol neu’r we yn datblygu’n dda. Er enghraifft, mae mwyafrif y disgyblion ar frig yr ysgol yn cipddarllen a llithrddarllen yn fedrus wrth gasglu gwybodaeth berthnasol am eu gwaith thema.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu marciau perthnasol gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau ac yn dechrau ffurfio llythrennau a geiriau syml. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio’r lleuad fel rhan o’u gwaith ynglŷn â’r bydysawd. Ar draws yr ysgol, mae’r llawer o ddisgyblion yn atalnodi a strwythuro eu gwaith yn synhwyrol. Mae’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau’n gadarn gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio ystod o eirfa addas wrth ysgrifennu. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu i safon briodol yn y Gymraeg a’r Saesneg mewn ystod o ffurfiau. Maent yn defnyddio ffurfiau cryno’r ferf yn hyderus ac yn ystyrlon, gan osod eu testun mewn trefn amser briodol. Mae’r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd mewn ystod berthnasol o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn gosod rhifau yn eu trefn hyd at 20 yn yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau mathemategol syml yn gywir gan ddefnyddio amrywiol ddulliau yn weddol gymwys. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth o werth lle sy'n eu galluogi i gyfrifo'n hyderus. Maent yn deall y rhan fwyaf o gysyniadau mathemategol perthnasol yn briodol. Pan gânt gyfle, maent yn defnyddio eu dealltwriaeth fathemategol mewn meysydd eraill y cwricwlwm yn briodol, yn enwedig mewn gweithgareddau gwyddoniaeth. Er enghraifft, maent yn llunio graffiau'n fedrus wrth fesur grym newtonau gwrthrychau. Er hyn, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn meysydd eraill y cwricwlwm yn ddigon effeithiol a chyson.

Mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn rheoli robot rhaglenadwy yn effeithiol wrth fwydo cyfarwyddiadau i'w symud o blaned i blaned. Mae llawer yn defnyddio teclynnau yn aeddfed ar gyfer gwahanol ddibenion, er enghraifft i greu poster i hysbysebu am estroniaid coll. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn defnyddio amrediad o raglenni'n hyderus, er enghraifft wrth greu tablau a graffiau i gymharu pwysau gwahanol fwyd. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn defnyddio basdata'n llwyddiannus i gasglu a choladu gwybodaeth, er enghraifft wrth ymholi am ffeithiau am y planedau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn arbrofi'n dda wrth gymysgu paent lliwiau gwyn a du wrth geisio creu darlun o'r lleuad gyda graddfeydd lliw trawiadol. Mae'r disgyblion hynaf yn ystyried lliw a thôn yn ofalus gyda phensil a phaent wrth efelychu arddull artist enwog, gan greu cylchoedd patrymog wrth ddarlunio'r planedau. Mae'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau dawnsio gwerin, sy'n rhoi blas iddynt ar draddodiadau Cymru. Mae'r disgyblion wedi profi llwyddiant mewn cystadlaethau yn eisteddfodau'r Urdd.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn ymddwyn yn gwrtais yn yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n dderbyniol, ac wrth aeddfedu, yn gynyddol ymwybodol o deimladau, safbwyntiau a chredoau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf yn deall y cysyniad o chwarae teg, ac maent yn parchu rheolau'r ysgol ac yn gwerthfawrogi pam y cawsant eu llunio. Maent yn ofalgar o'i gilydd, yn cymryd eu tro yn synhwyrol, ac yn cynorthwyo'i gilydd yn feddylgar, er enghraifft wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amser egwyl. Maent yn dangos balchder at eu hysgol ac yn canu'n llon eu hanthem ysgol unigryw y maent wedi ei chyfansoddi, 'Ysgol Blaenau yn ein calonnau ni; teulu ysgol Blaenau ydyn ni!'

Mewn gwersi, a phan mae'r gweithgareddau'n caniatáu, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn grwpiau a pharau, gan ddal ati i ganolbwyntio am gyfnodau priodol. Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch addas wrth ddysgu. Gan amlaf, maent yn awyddus i archwilio pethau newydd, gyda'r mwyafrif yn holi ac ateb cwestiynau i ddyfnhau eu dealltwriaeth.

Drwy gyfleoedd priodol i ddisgyblion gynrychioli eu cyfoedion ar y cyngor ysgol, maent yn dechrau dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol a chymryd cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft wrth wneud penderfyniadau i ddarparu ffrwyth am ddim i'w cyfoedion. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o fyw'n iach.

Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth elfennol o'u cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu dysgu. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae llawer yn deall ac yn gwerthfawrogi meini prawf llwyddiant fel canllaw iddynt ddysgu, gan ddechrau eu hystyried wrth fesur eu cyflawniad. Mae ychydig o gyfleoedd ar gael i ddisgyblion ddylanwadu ar sut a beth y maent yn ei ddysgu. Er hyn, yn gyffredinol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon cadarn.

Mae bron bob disgybl yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r rhan fwyaf yn deall sut i fod yn ddiogel ar-lein; er enghraifft, maent yn gwybod na ddylen nhw rannu eu manylion personol gydag eraill. Mae llawer yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles eu hunain gan gynnwys pwysigrwydd ymarfer y corff yn rheolaidd i gadw'n heini.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac mae'r cyfraddau presenoldeb yn gwella'n araf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'i holl randdeiliaid i greu gweledigaeth ar gyfer ei chwricwlwm, sef 'goleuo'r llwybr i'r dyfodol.' Mae athrawon yn datblygu cwricwlwm eang gyda'r nod o ddarparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio thema yn seiliedig ar y bydysawd, sy'n bachu dychymyg yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae disgyblion yn chwarae rhan weithredol yng nghynnwys y themâu maent yn eu dysgu. Mae athrawon yn ehangu'r cyfleoedd dysgu yn dda trwy ddefnyddio ymweliadau ag ardaloedd lleol ac ymwelwyr i'r ysgol er mwyn cyfoethogi'r addysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â safle bywyd gwyllt lleol i ddysgu am fwyd adar ysglyfaethus trwy ddadansoddi cynnwys peled o stumog yr aderyn. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i brofi gweithgareddau cyfoethog uniongyrchol sy'n dwysáu eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn datblygu partneriaeth â rhieni a sefydliadau lleol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cydweithio ag aelodau'r Cyngor Cymuned lleol i ddatblygu llecyn gwyllt o flaen yr ysgol. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o fod yn ddinasyddion gweithredol yn briodol ynghyd â dwysáu eu gwerthfawrogiad o'r ysgol yn eu cymuned.

Mae athrawon yn cynllunio'n addas ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Maent yn gosod disgwyliadau clir ac yn rhoi arweiniad cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n gynyddol. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dysgu yn werthfawr ar gyfer cefnogi disgyblion i gymhwyso mwyafrif y medrau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, o fewn eu gwaith i ddatblygu eu medrau digidol, mae disgyblion yn creu cyflwyniadau deniadol am y planedau. Fodd bynnag, er bod cyfleoedd da i

ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwersi gwyddoniaeth, prin yw'r cyfleoedd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae holl staff yr ysgol yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gofalu amdanynt yn fedrus. Mae gan athrawon adnabyddiaeth gadarn o anghenion y disgyblion, sy'n cynnwys gwerthfawrogi eu diddordebau er mwyn eu sbarduno a'u cefnogi i ganolbwyntio ar weithgareddau dysgu. Gan amlaf, mae'r gweithgareddau wedi'u teilwra'n gynnil i ymateb i'w hanghenion. Mae staff yn hybu ymddygiad da'r disgyblion yn ofalus a meddylgar, sy'n eu cynorthwyo i ddyfalbarhau'n synhwyrol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae staff yn dueddol o arwain y dysgu sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae athrawon yn annog disgyblion i siarad ac ymateb yn Gymraeg yn y dosbarth ac ardaloedd eraill yr ysgol, sydd yn ei dro yn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu medrau llafar. O oedran cynnar, cânt eu trochi yn yr iaith yn fedrus ac mewn modd cefnogol. Mae'r defnydd o garwsél iaith dyddiol yn ddull effeithiol o atgyfnerthu medrau llafar Cymraeg y disgyblion hynaf. Er hyn, mae athrawon yn ymwybodol o'r angen i barhau i hybu defnydd y disgyblion o'r Gymraeg ymhellach, ac maent yn ymarfer patrymau brawddeg ar lafar yn rheolaidd gyda'r disgyblion. Darperir gweithgareddau buddiol i ddisgyblion drafod mewn parau ac mewn grwpiau, gyda sawl un yn hybu'r disgyblion i ymestyn eu gwybodaeth o wahanol themâu. Mae athrawon yn holi disgyblion yn feistrolgar, gan eu cefnogi i ymestyn eu hatebion a datblygu eu medrau meddwl ymhellach, er enghraifft. Er hyn, yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r cyfleoedd i feithrin hyder lleiafrif y disgyblion i drafod, rhesymu ac egluro eu safbwyntiau a'u barn gan ddefnyddio iaith fwyfwy aeddfed yn gyfyng.

Mae'r athrawon yn esbonio'r hyn maent am i'r disgyblion ei ddeall yn eglur, gan osod nodau clir i'r gweithgareddau ynghyd â darparu meini prawf perthnasol er mwyn i'r disgyblion adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei gwblhau yn llwyddiannus. Mae rhediad pwrpasol i'r gweithgareddau yn cefnogi disgyblion i fwynhau eu dysgu a gweud cynnydd yn eu medrau. At ei gilydd, mae'r athrawon yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Yn ystod gweithgareddau, mae athrawon, a gan amlaf y cymorthyddion, yn cynnig adborth a chymorth llafar defnyddiol i ddisgyblion i'w cynorthwyo i wella eu gwaith ymhellach a dyfnhau eu dealltwriaeth. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu sylwadau ysgrifenedig ar waith y disgyblion er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o'u cyflawniad ond hefyd er mwyn iddynt fynd ati i wella eu gwaith ymhellach. Ambell dro, mae'r athrawon yn rhoi digon o amser iddynt ailddrafftio eu gwaith. Yn ddiweddar, darperir ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried eu cynnydd eu hunain a gwerthuso gwaith eu cyfoedion, ond mae effaith hyn ar wella medrau disgyblion yn ei dyddiau cynnar.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ymdeimlad ac ethos teuluol a chartrefol yn yr ysgol, sy'n creu awyrgylch dysgu cefnogol a diwylliant ble mae pawb yn gofalu'n dyner am ei gilydd.

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn ar gyfer ei disgyblion. Mae trefniadau gwerthfawr ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, fel y ddarpariaeth iddynt ddeall a gwerthfawrogi materion

crefyddol, moesol a byd-eang. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau personol, er enghraifft wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau creadigol.

Mae'r cyngor ysgol yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn ddinasyddion gweithgar ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol, fel sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer amser egwyl.

Mae'r arweinwyr yn rhoi ystyriaeth gyson i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn cael cyfleoedd i fanteisio ar yr holl weithgareddau a phrofiadau dysgu. Mae syniadau gwerthfawr yn cael eu gweithredu yn yr ysgol, er enghraifft y fenter 'pethau plant: pethau ni' sy'n darparu canolfan cyfnewid dillad ac esgidiau ymysg teuluoedd. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau, i feithrin eu hunanhyder a'u doniau mynegiannol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rhan ganolog yn ei chymuned ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddisgyblion, rhieni a'r trigolion lleol.

Mae'r cymorth a roddir ar gyfer disgyblion ag ADY yn gadarn, sy'n cynnwys cysylltiad agos a chlos â rhieni. Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol er mwyn defnyddio adnoddau i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd, ac i ddarparu arbenigeddau penodol, yn ôl yr angen. Defnyddia'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol asesiadau defnyddiol i greu proffil o anghenion penodol disgyblion, ynghyd â chynllun cymorth synhwyrol er mwyn cefnogi'r disgyblion i wella eu lles a gwneud cynnydd yn eu medrau. Mae staff yn adnabod ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd i rannu gwybodaeth ac i gefnogi anghenion penodol y disgyblion hyn a'r disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. At ei gilydd, mae'r gweithdrefnau a'r ddarpariaeth hyn yn addas wrth asesu a chefnogi'r disgyblion i wella yn unol â'u gallu a'u targedau personol unigol. Yn ogystal, mae staff yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd trwy ddarparu rhaglenni penodol, er enghraifft i wella eu medrau darllen.

Mae'r ysgol yn weithgar wrth hybu presenoldeb disgyblion, sy'n cynnwys cyfathrebu â rhieni gan amlinellu gwerth addysgol a gwerth arall presenoldeb da eu plentyn. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gwella'n araf, ond er hyn nid ydynt eto yn cymharu gystal â'r cyfraddau presenoldeb a fu cyn cyfnod y pandemig. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i wella presenoldeb ymhellach, ac wedi hunanwerthuso eu trefniadau. Trwy hyn, maent wedi pennu blaenoriaeth i wella presenoldeb yn eu cynllun gwella ysgol cyfredol.

Mae'r dulliau i hybu agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu ac i hyrwyddo a chefnogi eu hymddygiad yn gadarn. Mae diwylliant o sicrhau diogelwch a threfniadau diogelu cadarn yn yr ysgol, sy'n cynnwys hyfforddiant ac adnabyddiaeth y staff o'r camau y dylid eu cymryd mewn sefyllfaoedd gwahanol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth gadarn yn seiliedig ar ofal a pharch ac mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n glir. Caiff ei chefnogi gan dîm bychan o staff sy'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus. Ers ymgymryd â'r rôl tua blwyddyn yn ôl, mae'r pennaeth mewn gofal wedi gosod nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion pob disgybl. O ganlyniad,

mae lles, cynnydd a safonau disgyblion, ynghyd ag ansawdd yr addysgu, wedi gwella'n raddol dros y cyfnod.

Mae'r pennaeth mewn gofal yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, staff a disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu tîm effeithiol a chefnogol o athrawon a chymorthyddion, gan gynnwys hyrwyddo eu lles. Maent yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella'r ysgol a sicrhau bod cydweithio cyson yn rhan annatod o drefniadau'r ysgol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff ar bob lefel  ddatblygu'n broffesiynol. Mae dysgu proffesiynol yn cysylltu'n glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella, fel hyfforddiant pwrpasol ynglŷn â'r cwricwlwm ac egwyddorion addysgeg. Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â'r ysgol uwchradd leol, sy'n cynnwys cyfleoedd i gyd-drefnu hyfforddiant perthnasol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn addas ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn rheolaidd i wella eu harfer, ac maent yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thanberfformio yn gadarn ac yn uniongyrchol, yn ôl yr angen. Gwneir defnydd priodol o grantiau perthnasol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, er enghraifft i ddarparu hyfforddiant i gymhorthydd i gefnogi disgyblion bregus.

At ei gilydd, mae canfyddiadau'r arolygwyr yn ystod yr arolygiad yn cyd-fynd yn weddol agos â'r hyn mae arweinwyr yr ysgol eu hunain wedi eu hadnabod eisoes fel meysydd i'w gwella. Ers cychwyn, mae'r pennaeth mewn gofal wedi gosod strategaethau hunanwella cadarn ar waith i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr ysgol yn gyflym a thrwyadl. Mae'n casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol am gynnydd a safonau'r disgyblion ynghyd â'r ddarpariaeth, er enghraifft drwy arsylwadau gweithgareddau dysgu a thrwy olrhain cynnydd disgyblion dros amser. Mae'r pennaeth yn ymgynghori'n llawn â staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Defnyddir canfyddiadau'r broses hunanwerthuso, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall, i lunio blaenoriaethau a chamau perthnasol ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a'r ddarpariaeth ADY.

Mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin perthynas gynhyrchiol a hynod effeithiol â rhieni. Cynhelir cyfarfodydd cyson i'w cynorthwyo ar sut i gefnogi eu plant â'u dysgu; er enghraifft, dathlwyd llwyddiannau'r disgyblion yn llwyddiannus trwy gynnal 'Bwrlwm Blaenau' yn ddiweddar. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt drefniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni er mwyn iddynt godi unrhyw faterion all effeithio ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, anfonir holiaduron blynyddol at rieni er mwyn caffael eu barn am gryfderau a materion sy'n eu pryderu am yr ysgol.

At ei gilydd, mae llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol, ac yn cyfrannu'n bwrpasol at werthuso safonau a darpariaeth yr ysgol. Maent yn sicrhau bod y bwyd a diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth; er enghraifft, mae'r ffynnon ddŵr yn hygyrch i ddisgyblion ac mae ffrwythau iach ar gael iddynt yn ddi-dâl. Gyda'r pennaeth, maent yn trafod ac ymateb i weithgareddau gwella'r ysgol yn briodol, er enghraifft trwy gynnal teithiau dysgu i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n bwrpasol at bennu blaenoriaethau strategol yr ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth berthnasol o gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gefnogol i waith yr ysgol, ac yn adnabod

y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Mae'r llywodraethwyr yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her i'r ysgol, ac yn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif.

Er hyn, dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi mynd i'r afael â'r diffyg sylweddol sydd yng nghyllideb ariannol yr ysgol yn ddigon effeithiol. Mae'r diffyg hwn wedi parhau i gynyddu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Ysgol Blaenau ymysg yr isaf o ysgolion awdurdod Sir Gaerfyrddin o ran ei lefel cronfeydd a ddygwyd ymlaen. Er bod gan yr awdurdod drefniadau i dderbyn cynlluniau gan ysgolion ar gyfer adfer diffygion cyllidol, yn yr achos hwn nid oes cynllun ar gyfer ymateb i'r diffyg. O ganlyniad, nid yw hyn yn cefnogi'r ysgol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella, er enghraifft i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, yn ddigon effeithiol dros amser.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   03/04/2024